# SUL CYFFREDIN 20

**JEREMEIA 8:18–9:1; SALM 79:1-9;**
**1 TIMOTHEUS 2:1-7; LUC 16:1-13**

## ● Gweddi agoriadol

Dduw heddiw a phob diwrnod,
bydd gyda ni yn ein cyfarfod –
y cariad sy'n ein clymu,
yr heddwch sy'n ein tawelu,
y cyffyrddiad sy'n ein hiacháu,
y llawenydd sy'n ein llenwi,
y breichiau sy'n ein cofleidio.
Bydd gyda ni wrth i ni gyfarfod,
Dduw heddiw a phob dydd.

## ● Moliant

Mewn byd sydd â chymaint i'w ddweud
a dim amser i wrando,
rwyt wrth dy fodd yn clywed gweddïau dy bobl,
yr offrwm melys a phersawrus
yn dyrchafu at dy orsedd.

Mewn byd sy'n holi cymaint o gwestiynau
wrth chwilio am ystyr,
ti yw'r ateb a geisiant,
dŵr bywiol sy'n torri syched,
creawdwr a ffynnon popeth.

Mewn byd sy'n chwilio am gariad
a synnwyr cyfeiriad,
croesewi dy blant afradlon yn ôl
i freichiau cariadus eu Tad
ac i'th gartre teuluol.

● **Cyffes**

Os nad yw ein cymydog yn nabod dy enw
am na chefaist dy gyflwyno,
maddau i ni.
Os yw ffrind neu gydymaith yn dal i chwilio
am yr atebion sydd eisoes yn hysbys i ni,
maddau i ni.
Os na welodd y byd eto y newid
sy'n guddiedig yn ein calonnau,
maddau i ni.
Os nad ydym eto wedi canfod yr hyder
i sôn am ein ffydd,
maddau i ni,
  adnewydda ni,
a nertha ni i fod
y disgyblion a ddylem fod,
fel y gogonedder dy enw
fel y dylid.

● **Diolch**

Nid oes ond un Duw,
a wnaeth bob peth
ac sy'n creu ynom
ddelw'r dwyfol.

Arweinydd: Newydd da i bawb
**Pawb: Fe'i cyhoeddwn yn ddiolchgar.**

Nid oes ond un Crist,
a fu farw trosom,
codi i fywyd eto
a nawr yn eiriol drosom.

Arweinydd: Newydd da i bawb
**Pawb: Fe'i cyhoeddwn yn ddiolchgar.**

Nid oes ond un Ysbryd,
sy'n trigo ynom,
ysbrydoli ein meddyliau
a gwresogi ein calonnau i wasanaethu.

Arweinydd: Newydd da i bawb
**Pawb: Fe'i cyhoeddwn yn ddiolchgar.**

Dduw'r Tad, Ysbryd, Mab,
Drindod gogoneddus, dri yn un.

Arweinydd: Newydd da i bawb
**Pawb: Fe'i cyhoeddwn yn ddiolchgar.**